

MANYLEB ASESU LEFEL 6

Enw'r myfyriwr:	Lowri Price	Rhif Adnabod y myfyriwr:	1707329
Rhaglen:	TAR Uwchradd		
Modwl:	Datblygu a Chyfoethogi'r Cwricwlwm		
Cod y modwl:	ECSP6004C	Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):	100%
Darlithydd:	Helen Denny	Gwiriwr Mewnol:	
Teitl yr Aseiniad:	Astudiaeth Ymchwil yn cynnwys Ffurflen Foeseg	Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):	10,000 words yn cynnwys ffurflen moeseg (i gael ei roi l mewn lonawr 11 2019)
Dyddiad cyflwyno:	13 Mai 2019	Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:	10 Mehefin 2019
Dull cyflwyno:	Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.) Dull cyflwyno arall (os ydy'n berthnasol): Bydd cyflwyno'r asesiad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc cosb. Cosbau am gyflwyno'n hwyr: Hyd at wythnos yn hwyr, uchafswm marc o 40%. Dros wythnos yn hwyr, 0%. Y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn unig all gymeradwyo newid dyddiadau cyflwyno.		
Gonestrwydd academiaidd / cyfeirnod:	Mae gonestrwydd academiaidd yn ofynnol. Ym mhrif ran eich cyflwyniad rhaid i chi gydnabod awduron y mae'ch gwaith wedi'i seilio ar eu hymchwil a'u syniadau. Dylech atodi rhestr gyfeiriadau i'ch cyflwyniad sy'n nodi'r llyfrau, erthyglau ac ati rydych wedi'u defnyddio, wedi cyfeirio atynt neu wedi'u dyfynnu er mwyn cwblhau'r asesiad hwn.		

Deilliannau Dysgu'r Modwl
(o faes llafur y modwl)

DISGRIFIAD O'R DASG

CANLLAWIAU I FYFYRWYR WRTH GWBLHAU TASGAU

SYLWER: Mae'r canllawiau a nodir isod yn gysylltiedig â'r pum maen prawf asesu generig drosodd.

1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth

Mae'n rhaid i'ch gwaith gael ei lywio a'i gefnogi gan ddeunydd ysgolheigaidd sy'n *berthnasol* i'r dasg/tasgau a osodwyd ac sy'n *canolbwyntio* arni/arnynt; dylech ddefnyddio adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau gwreiddiol, lle bo'n briodol (er enghraifft, erthyglau ymchwil a adolygwyd a/neu ddeunyddiau gwreiddiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth). Dylech ddarparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi cael mynediad i *ystod* eang o ffynonellau, a allai fod yn academiaidd, yn llywodraethol a diwydiannol; gall y ffynonellau hyn gynnwys erthyglau cyfnodolion academiaidd, gwerslyfrau, erthyglau newyddion cyfredol, dogfennau sefydliadol a gwefannau. Dylech ystyried *hygrededd* eich ffynonellau; fel arfer mae cyfnodolion academiaidd yn ffynonellau credadwy iawn, ond mae'n rhaid ystyried/dethol gwefannau'n ofalus iawn a dylid eu defnyddio'n gynnil. Dylai unrhyw ffynhonnell a ddefnyddiwyd fod yn gyfredol, a'r rhan fwyaf wedi'u cyhoeddi o fewn y pum mlynedd diwethaf, er y gall darnau arloesol/pwysig o waith yn y maes fod yn hŷn. Rhaid i chi ddarparu *tystiolaeth* o'ch ymchwil/gwaith darllen eich hun trwy gydol eich gwaith, gan ddefnyddio system gyfeirnod addas, yn cynnwys cyfeiriadau yn y testun ym mhrif ran eich gwaith a rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Ar lefel 6, dylech allu arddangos gwybodaeth gydlynol a manwl a dealltwriaeth systematig o'r maes pwnc, y mae o leiaf rhywfaint o'r rhain wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf a/neu ysgolheictod uwch o fewn y ddisgyblaeth. Dylech fod yn ymwybodol o ansicrwydd ac amwysedd gwybodaeth a'r cyfyngiadau arni. Mae'n rhaid i'ch gwaith ddangos ehangder cynyddol eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth systematig o gysyniadau ac egwyddorion gwaledol sy'n gysylltiedig â'r maes pwnc. Mae *gwybodaeth* yn ymwneud â'r ffeithiau, y wybodaeth a'r sgiliau rydych wedi'u caffael trwy eich dysgu. Rydych yn arddangos eich *dealltwriaeth* trwy ddehongli ystyr y ffeithiau a'r wybodaeth. Golyga hyn fod arnoch angen dethol a chynnwys yn eich gwaith y cysyniadau, y technegau, y modelau, a'r theorïau ac ati sy'n briodol i'r dasg/tasgau a osodwyd. Dylech allu esbonio'r theorïau, y cysyniadau, ac ati yn ystyrion i ddangos eich dealltwriaeth. Hefyd, bydd eich marc/gradd yn amodol ar y *graddau* rydych chi'n arddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth; yn ddelfrydol, dylai'r ddwy fod yn gyflawn ac yn fanwl, ac wedi'u trin a'u trafod yn gynhwysfawr.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol

Dylech allu: gwerthuso'n feirniadol dystiolaeth, dadleuon, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data y mae rhai ohonynt ar ben blaen disgyblaeth (ac a allai fod yn anghyflawn) er mwyn dyfeisio a chynnal dadleuon, ffurfio barn a/neu ddatrys problemau; disgrifio a rhoi sylwadau ar agweddau penodol ar ymchwil cyfredol, neu ysgolheictod uwch cyfatebol, yn y ddisgyblaeth. Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o feddwl rhesymegol, dadansoddol, gwerthuso a synthesis. Er enghraifft, archwilio a thorri gwybodaeth i lawr yn elfennau, gwneud casgliadau, casglu, cymharu a chyferbynnu gwybodaeth. Ystyr hyn yw nid disgrifio 'beth' yn unig! Ond hefyd cyfiawnhau: Pam? Sut? Pryd? Pwy? Ble? Ar ba gost? Dylech bob amser ddarparu cyfiawnhad ar gyfer eich dadleuon a'ch barn. Mae darparu tystiolaeth eich bod wedi adfyfyrio ar syniadau pobl eraill yn y maes pwnc yn hanfodol os ydych am gyflwyno dadl resymegol a gwybodus o fewn eich gwaith. Yn ogystal, dylech ddarparu tystiolaeth o'ch gallu i ffurfio barn gadarn a dadleuon argyhoeddiadol trwy ddefnyddio data a chysyniadau. Mae casgliadau cadarn, dilys yn hanfodol ac mae'n rhaid iddynt ddeillio o gynnwys eich gwaith. Lle bo'n berthnasol, gellir cynnig atebion ac argymhellion amgen.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

4. Sgiliau Ymarferol

Ar lefel 6, dylech allu cymhwyso'r dulliau a'r technegau rydych wedi'u dysgu er mwyn adolygu, cadarnhau, ymestyn a chymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth, a chychwyn a chyflawni prosiectau. Byddwch yn defnyddio'n gywir dechnegau dadansoddi ac ymholi sefydledig sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth, a'u cymhwyso mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy, er mwyn dyfeisio a chynnal dadleuon a/neu ddatrys problemau. Dylech allu llunio cwestiynau priodol er mwyn cyrraedd ateb - neu ddynodi ystod o atebion. Dylech allu dangos sut y mae'r cysyniadau a'r syniadau sy'n gysylltiedig â'r pwnc yn berthnasol i sefyllfaoedd yn y byd go iawn a/neu mewn cyd-destun penodol. Sut maent yn gweithio'n ymarferol? Byddwch yn defnyddio modelau, dulliau, technegau a/neu theorïau, yn y cyd-destun hwnnw neu'r amgylchiadau hynny, i asesu sefyllfaoedd presennol, efallai er mwyn llunio cynlluniau neu atebion i ddatrys problemau, neu i greu arteffactau, y gall rhai ohonynt fod yn arloesol ac yn greadigol. Mae hyn yn debygol o gynnwys, er enghraifft, defnyddio arteffactau, enghreifftiau ac achosion o'r byd go iawn, cymhwyso model o fewn sefydliad a/neu feincnodi un theori neu sefydliad yn erbyn rhai eraill yn seiliedig ar feini prawf penodedig. Dylech ddangos ymwybyddiaeth o gyfyngiadau cysyniadau a theorïau wrth eu cymhwyso mewn cyd-destunau penodol.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol

Rhaid i'ch gwaith roi tystiolaeth o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion sy'n gofyn am arfer menter a chyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau mewn amgylchiadau cymhleth ac anrhagweladwy. Mae hyn yn cynnwys dangos: y gallu i ddysgu ar gyfer datblygiad proffesiynol i wella sgiliau presennol a chaffael cymwyseddau newydd o natur broffesiynol a fydd yn eich galluogi i ymgymryd â chyfrifoldeb sylweddol o fewn sefydliadau; eich bod yn gallu cychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, boed yn unigol a/neu'n gydweithredol; eich bod yn gallu defnyddio cyfryngau priodol i gyfleu gwybodaeth, dadleuon a dadansoddiad yn effeithiol ar amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol; rhuglder mynegiant; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn. Dylai'r gwaith fod yn gydlynol ac wedi'i strwythuro'n dda o ran ei gyflwyniad a'i drefn.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

FFURFLEN ADBORTH MYFYRWYR

Noda'r adran hon y *graddau* y mae'r meini prawf asesu yn cael eu harddangos gennych chi, sydd yn ei dro'n pennu'ch marc. Dangosir y marciau sydd ar gael ar gyfer pob categori sgiliau. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/ta sgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

Meini Prawf Asesu Generig	Marciau sydd ar gael	Marciau a ddyfarnwyd
1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth		
2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth		
3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol		
4. Sgiliau Cymhwyso Ymarferol		
5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol		

Marc Asesiad (Mae marciau asesuadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r marciau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.)

Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (ticiwch os yw'n berthnasol)

Hyd at wythnos yn hwyr (uchafswm o 40%)

Dros wythnos yn hwyr (0%)

%

MEINI PRAWF ASESU GENERIG

Lefel 6

Yn unol â'r *Framework for Higher Education Qualifications*, ar ddiwedd Lefel 6 dylai fod gan fyfyrwyr wybodaeth gydlynol a manwl a dealltwriaeth systematig o'u maes pwnc, y mae o leiaf rhywfaint o'r rhain wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf a/neu ysgolheictod uwch o fewn y ddisgyblaeth. Byddant yn gallu defnyddio technegau dadansoddi ac ymholi sefydledig yn gywir o fewn disgyblaeth, gan ddefnyddio'u dealltwriaeth gysyniadol i ddyfeisio a chynnal dadleuon a/neu i ddatrys problemau. Dylent fod yn ymwybodol o ansicrwydd ac amwysedd gwybodaeth a'r cyfyngiadau arni. Dylent allu gwerthuso'n feirniadol dystiolaeth, dadleuon, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data (a allai fod yn anghyflawn), i lunio barn, ac i fframio cwestiynau priodol er mwyn cyrraedd ateb - neu ddynodi ystod o atebion. Byddant yn cymhwyso'r dulliau a'r technegau maent wedi'u dysgu i adolygu, cadarnhau, ymestyn a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a chychwyn a chyflawni prosiectau. Bydd ganddynt y gallu i reoli eu dysgu eu hunain, a manteisio ar adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau gwreiddiol (er enghraifft, erthyglau ymchwil a adolygwyd a/neu ddeunyddiau gwreiddiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth). Byddant yn arddangos y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am y canlynol: arfer menter a chyfrifoldeb personol; gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy; y gallu i ddysgu sydd ei angen i ymgymryd â hyfforddiant pellach priodol o natur broffesiynol neu gyfatebol.

Lefel 6	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-84%	85-100%
Ymgysylltu â llenyddiaeth (yn cynnwys darllen, cyfeirnod, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd)	Fawr ddim neu ddim dystiolaeth o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Safbwyntiau a chanfyddiadau ar y cyfan heb gefnogaeth ac yn anawdurdodol. Defnyddir arferion cyfeirnod mewn modd anghydlynol neu ar y cyfan maent yn absennol.	Ymgysylltu gwael â darllen hanfodol. Dim dystiolaeth o ddarllen ehangach. Yn dibynnu ar ffynonellau amhriodol, a/neu yn defnyddio ffynonellau'n ddiofal. Yn ddiabyddol iawn ar wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. Defnydd anghyson a gwan o gyfeirnod.	Ymgysylltu ag ystod gyfyngedig o ffynonellau perthnasol a chredadwy ar y cyfan. Peth esgeulustod a mân wallau. Arferion cyfeirnod i'n amlwg ond heb eu cymhwyso'n gywir nac yn gyson bob tro.	Ymgysylltu ag ystod briodol o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Rhywfaint o orddibyniaeth ar destunau. Gall y cyfeirnod ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod eang o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Detholiad o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Defnydd da iawn o gyfeirnod, â fawr ddim/dim anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy, sydd wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf. Cymhwyso cyfeirnod i'n gyson gywir.	Ymgysylltu eithriadol ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy, sydd wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf. Sgiliau cyfeirnod ar lefel uchel, wedi'u cymhwyso'n gyson ac yn broffesiynol.

Lefel 6	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3ydd / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%
Gwybodaeth a dealltwriaeth (Gwybodaeth gydlynol a manwl a dealltwriaeth systematig o'r maes pwnc, y mae o leiaf rhywfaint o'r rhain wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf a/neu ysgolheictod uwch o fewn y ddisgyblaeth.)	Bylchau mawr yn y wybodaeth a'r ddealltwriaeth systematig o'r maes pwnc. Anghywirdebau sylweddol. Dim ymwybyddiaeth o wybodaeth am yr ymchwil diweddaraf a/neu o ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth.	Bylchau yn y wybodaeth, gyda dealltwriaeth systematig arwynebol yn unig. Rhai anghywirdebau sylweddol a/neu ddeunydd amherthnasol. Dim ymwybyddiaeth o wybodaeth am yr ymchwil diweddaraf a/neu o ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth.	Gwybodaeth a dealltwriaeth systematig gyfyngedig o'r cysyniadau a'r egwyddorion perthnasol yn y maes pwnc sydd i raddau cyfyngedig, wedi'u seilio ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol.	Mae'r wybodaeth yn gymharol fanwl a chywir gyda dealltwriaeth systematig dda o'r maes astudio ac i ryw raddau, o ymchwil ac ysgolheictod cyfredol.	Mae'r wybodaeth yn gymharol helaeth, gydlynol a manwl. Arddengys ddealltwriaeth dda iawn o ehanglder a manylder safbwyntiau sefydledig, ac mae'r gwaith, yn rhannol o leiaf, wedi'i seilio'n dda ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol.
Sgiliau gwybyddol a deallusol (Meddwl cysyniadol a beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso ymchwil, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data (a allai fod yn anghyflawn); rhesymeg, dadl a barn).	Gwaith hollol neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim dadansoddi, synthesis neu werthuso. Wedi methu datblygu dadleuon, gan arwain at farn afresymegol neu annilys. Cyffredinoliadau heb sail, wedi'u gwneud heb ddefnyddio unrhyw dystiolaeth gredadwy.	Gwaith disgrifiadol ar y cyfan, gyda defnydd arwynebol o werthuso beirniadol. Datblygu gwan ar ddadleuon a barn. Derbynnir gwybodaeth yn anfeirniadol, defnyddia ddatganiadau cyffredinol heb fawr o dystiolaeth a barn heb sail. Syniadau weithiau'n afresymegol ac yn gwrthddweud ei gilydd.	Ymgais cyfyngedig at feddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso, gan dueddu tuag at ddisgrifio. Peth tystiolaeth i gefnogi dadleuon a barn cynyddol ond gall y rhain fod heb eu datblygu'n ddigonol neu ag ychydig o anghysondeb / camddehongli. Yn haeru'n hytrach na dadlau achos.	Rhywfaint o feddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso. Gall ddadansoddi cysyniadau a data newydd a/neu haniaethol heb arweiniad. Ymwybyddiaeth gynyddol o wahanol safbwyntiau, a gallu i ddefnyddio tystiolaeth (a allai fod yn anghyflawn) i gefnogi'r dadl. Dadleuon dilys a barn resymegol ar y cyfan. Rhywfaint o duedd i haeru / datgan barn yn hytrach na dadlau ar sail rheswm a thystiolaeth.	Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso cadarn gan arddangos meddwl beirniadol. Gallu i ddyfeisio a chynnal dadleuon argyhoeddiadol ac i adolygu dibynadwyedd, dilysrwydd ac arwyddocâd tystiolaeth (a allai fod yn anghyflawn) er mwyn llunio barn briodol a dilys ar y cyfan.
Sgiliau ymarferol (Cymhwyso / defnyddio offer a thechnegau sefydledig yn	Defnydd cyfyngedig, neu ddim defnydd o ddulliau, deunyddiau,	Cymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd	Ymwybyddiaeth ddigonol a chymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu	Cymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau safonol mewn	Cymhwyso ystod o ddulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau

Lefel 6	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%
gywir; cychwyn a chyflawni prosiectau; llunio atebion i ddatrys problemau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.)	offer a/neu dechnegau. Fawr ddim neu ddim gwerthfawrogiad o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth gyfyngedig o gymhwyso theori i arfer neu o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan iawn mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.	elfennol ond heb ystyriaeth na chymhwysedd. Gwerthfawrogiad diffygiol o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth wan o gymhwyso theori i arfer, gyda thystiolaeth achlysurol yn unig o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.	dechnegau sefydledig mewn modd priodol ar y cyfan. Gwerthfawrogiad sylfaenol o gyd-destun y cymhwyso. Gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol wedi'u cymhwyso'n ymarferol, ond heb wneud cysylltiadau rhesymegol rhwng y ddau bob tro. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion sylfaenol mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy heb werthfawrogi'r cymhlethdod yn llawn.	modd da a phriodol. Gwerthfawrogiad eglur o gyd-destun y cymhwyso. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol ar y cyfan, gan wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol ar y cyfan mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.	mewn modd da iawn. Ystyriaeth dda iawn o gyd-destun y cymhwyso, gyda mewnwelediad treiddgar. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy. Tystiolaeth o beth arloesi a chreadigrwydd.
Sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac arfer proffesiynol (Arfer menter a chyfrifoldeb personol; datblygiad proffesiynol; cychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau: yn unigol a / neu'n gydweithredol; defnyddio cyfryngau priodol i gyfathrebu'n effeithiol; rhuglder mynegiant; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn.)	Cyfrwng cyfathrebu yn amhriodol neu wedi'i gam-gymhwyso. Mae'r gwaith wedi'i strwythuro'n wael, yn ddi-drefn, a/neu wedi'i fynegi'n ddryslyd. Defnydd gwan iawn o iaith a/neu arddull amhriodol iawn. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ymreolaeth (neu o gydweithio, pan fo'n berthnasol) wrth gwblhau tasgau. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o'r	Cyfrwng cyfathrebu wedi'i ddylunio'n wael a/neu ddim yn addas at y gynulleidfau. Mae'r gwaith wedi'i gyflwyno'n wael mewn modd digyswllt. Mae wedi'i strwythuro'n llac, ac ar brydiau'n anghydlynol, a gwybodaeth a syniadau wedi'u mynegi'n wael yn aml. Defnydd gwan o iaith a/neu arddull amhriodol. Menter annibynnol (neu gydweithio, os ydy'n berthnasol),	Gall gyfathrebu mewn cyfrwng addas ond gyda lle i wella. Cyflwyniad a strwythur yn drefnus ar y cyfan, lle mynegir syniadau / cysyniadau perthnasol mewn modd rhesymol. Gall fod diffyg cydlynid mewn mannau yn y gwaith. Gall weithio fel rhan o dîm, ond gyda chyfranogiad cyfyngedig mewn gweithgareddau grŵp.	Gall gyfathrebu'n effeithiol mewn fformat addas, ond gall fod â mân wallau. Mae'r gwaith yn gydlynol a threfnus ar y cyfan, mewn strwythur addas ac ar y cyfan mae wedi'i fynegi'n eglur. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eglur at weithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i	Gall gyfathrebu'n dda, yn hyderus ac yn gyson mewn fformat addas. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl, wedi'i strwythuro'n dda ac yn drefnus. Gall weithio'n dda iawn yn ymreolaethol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau da iawn at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau da iawn ar gyfer cyflogaeth i raddedigion, gyda mân wendid

Lefel 6	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%
	sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion.	wan. Tystiolaeth gyfyngedig o'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion.	Arddengys y sgiliau sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion, gyda rhai meysydd o fân wendid.	raddedigion, gyda rhai meysydd o gryfder a rhai o fân wendid.	achlysurol yn unig.

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL HEFYD YN SAESNEG

Astudiaeth ymchwil: Pa mor bwysig mae asesiad ar gyfer dysgu o fewn byd addysg heddiw ac i ba raddau ydym yn defnyddio asesiad ar gyfer dysgu mewn modd effeithiol i ehangu a chyfoethogi'r dysgwyr.

Rhagair:

Cynhelir yr astudiaeth hon o fewn ysgol eilradd Cymraeg sydd a dros 800 o ddisgyblion rhwng 11 hyd at 19 blwydd oed. Mae'n ysgol categori gwyrdd ac mae'r canran o brydau ysgol am ddim yn isel iawn ar gyfer yr ysgol hon (llai na 5%) ac mae ganddo bresenoldeb dros 95%. Mae gan yr ysgol cyllid o bron £4,500 i bob disgybl ac mae llai 15% o'r disgyblion ar y gofrestr ADY. Defnyddir un dosbarth ym mlwyddyn saith ar gyfer yr astudiaeth hon. Roedd yna 24 o ddisgyblion yn y dosbarth yma gyda 14 o ferched a 10 bachgen. Mae'n ddosbarth gallu cymysg ac fel rhan o'r astudiaeth hon mewn i asesu ar gyfer dysgu'r ysgol roedd rhaid iddyn nhw wneud hunan asesiad a defnyddio'r asesiad hyn i osod targedau iddyn nhw gweithredi arnynt. Mae hunan asesiad yn rhan allweddol o asesu ar gyfer dysgu gan ei bod yn dysgu'r disgyblion i fyfyrwyr ac mae gosod y targedau yn hybu'r disgyblion i ystyried sut gallent fynd ati i wella'u perfformiad. Felly, fel rhan o'r asesiad hyn rhaid ystyried a ydy asesu ar gyfer yn allweddol i hybu gwelliant y disgyblion ac os mae hunan asesiad yn modd effeithiol i datblygu gallu'r disgyblion fel eu bod nhw'n datblygu meddylfryd o dwf (Dweck C. S, 2006).

Adolygiad Llenyddol:

Asesiad ar gyfer dysgu:

Mae yna argyfwng sy'n dwysáu yng nghlwm ag asesu yn ein dosbarthiadau heddiw (Stiggins, R.J., 2002) ac mae angen sicrhau ein bod yn ymateb iddo nawr. Mae asesu ar gyfer dysgu wedi seilio ar ddull gweithredu lle mae disgyblion yn ganolog i asesiad yn y gwersi (Guskey, 2003). Yn bresennol nad ydym yn defnyddio'r asesiadau i gynhyrchu twf a gwelliannau mewn gallu ac ymwybyddiaeth y disgyblion (Earl, L.M., 2012). Er bod angen defnyddio asesiadau yn fwy effeithiol mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod athrawon yn medru dehongli'r wybodaeth o unrhyw asesiadau yn syth a bod y disgyblion yn gallu rhyngweithio gyda'r adborth (Heitink et al, 2016). Er mwyn gallu sicrhau bod disgyblion yn medru ymateb a gwneud twf wrth gefn unrhyw asesiad rhaid gwneud yn siŵr bod yr adborth o safon uchel (Black, P., Harrison, C. a Lee, C., 2003) gyda digon o fanylder. Ond rhaid hefyd ystyried

adborth sy'n rhoi canllawiau bras neu gwestiynau i'r disgyblion fel bod y disgyblion eu hunan yn cael eu gorfodi i ymateb a cheisio gwella'u gwaith yn annibynnol. Gall asesiad ar gyfer dysgu effeithiol magu ymreolaeth (Fetterman, D.M., Kaftarian, S.J. a Wandersman, A., 1996) yn ddisgyblion ac yn y pendraw gall gwella agweddau disgyblion tuag at waith a gweithio'n galed. Mae cynnydd yn weithgarwch disgyblion yn hanfodol i gynnydd pob disgybl fel a nodir gan James Nottingham 'the learning pit' sydd hefyd wedi seilio ar syniad Carol Dweck o feddylfryd o dwf er mwyn parhau i wella ac ymgeisio i wneud fwy.

Hunan asesu:

Dywedir McMillan, J.H. a Hearn, J., (2008) bod hunan asesiad yn un dull gall codi cymhelliant disgyblion a faint maent yn barod i ymroi i'r gweithgareddau, trafodaethau a gwaith yn y dosbarth. Wrth roi siawns i'r disgyblion i hunan werthuso a datblygu barn ar eu perfformiad mae modd i gryfhau annibyniaeth, blaengaredd a hunan ddisgyblaeth yn y disgyblion (Janisch, C., Liu, X. a Akrofi, A., 2007). Er bod nifer o athrawon ac ysgolion yn defnyddio systemau o hunan werthusiad cred nifer ohonynt fod angen ehangu'r gwaith ymchwil yn y maes yma er mwyn creu awgrymiadau am strategaethau a sut gallent gael eu defnyddio ar raddfeydd eang. Cynhelir Harris, L.R. a Brown, G.T., (2013) astudiaeth i hunan asesiad ac asesu cyfoed yn Seland Newydd a darganfyddont nhw fod y disgyblion yn tueddu nodi problemau mewn cywirdeb a sut maent yn rhyngweithio'n gymdeithasol ac felly nad ydyn yn asesu ar gynnwys a dealltwriaeth sy'n berthnasol i'r ymchwiliad. Dywedir Harris a Brown bod angen cyfarwyddiadau mwy eglur er mwyn medru gweithredu unrhyw systemau gwerthuso yn llwyddiannus. Mae Fetterman, D.M., Kaftarian, S.J. a Wandersman, A., (1996) yn nodi bod angen cynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer athrawon ac aelodau staff i sicrhau cysondeb ac eglurder yng nghlwm â hunan asesu ac asesu cyfoed gan gynnwys awgrymiadau o sut gallent gyflwyno'r gweithgareddau hyn yn y gwersi a sut gallent nhw gael eu haddasu i wahanol ddosbarthiadau. Mae angen i fwy o drafodaeth digwydd am ba ffurf orau o asesu sydd addas ar ba adegau.

Tra ystyried hunan asesu rhaid hefyd trafod term allweddol sy'n aml yn cyd-fynd gyda'r gweithgaredd sef meta ymwybyddiaeth. Mae meta ymwybyddiaeth yn cynnwys gallu'r disgyblion i fonitro, gwerthuso a phenderfynu sut i wella'u perfformiad yn y dyfodol (McMillan, J.H. a Hearn, J., 2008). Mae hyn yn cynnwys gallu'r disgyblion i wirio'u

dealltwriaeth, rhagweld canlyniadau posib, cynllunio gweithgareddau i datblygu, rheoli amser a cyfnewid i weithgareddau dysgu gwahanol er mwyn cynyddu cyrhaeddiad (Schunk, 2012).

Polisi'r ysgol:

Defnyddir yr adran Daearyddiaeth yn yr ysgol hon taflenni gwerthuso (atodiad 1) ar ddiwedd pob uned fel bod y disgyblion yn hunan werthuso a chanolbwyntio ar yr elfennau maent wedi deall a mwynhau a'r elfennau maent am wella. Mae'r ysgol gyfan yn defnyddio'r system o ddwy seren a dau ddymuniad fel y gweler ar y taflenni gwerthuso (atodiad 1) mae'r adran Daearyddiaeth yn rhoi i ddisgyblion o flwyddyn 7 hyd at flwyddyn 9. Defnyddir y system o ddwy seren a dau ddymuniad yn gyson yn yr adran er enghraifft ar gyfer yr hunan werthusiad, gwerthuso cyfoed a pan mae'r athrawon yn rhoi sylwadau ar ôl marcio'r llyfrau, darn o waith asesu a hefyd arholiadau. Er hyn, mae'r adran Daearyddiaeth yn symud ymlaen a threialu dwy seren a chwestiwn yn lle fel bod rhaid i'r disgyblion mynd nôl trwy eu llyfrau i geisio gwella'r gwaith trwy ateb y cwestiwn yn hytrach na'r athrawon yn dweud wrthyn nhw beth mae angen iddyn nhw wneud.

Mae'r ysgol hefyd yn hybu'r disgyblion i edrych dros eu gwaith a gwneud cywiriadau gyda system lle mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn feiro coch, mae'r disgyblion yn marcio gwaith ei gilydd yn bensil ac yna maent yn ymateb i'r sylwadau a chywiriadau yn feiro gwyrdd. Wrth wneud hyn mae'n sicrhau bod y disgyblion yn myfyrio ar eu gwaith ac yn osgoi ailadrodd yr un camgymeriadau tro ar ôl tro.

O fewn yr adran Daearyddiaeth maent yn annog y disgyblion i werthuso cyfoed ar gyfer llawer o'r tasgau asesu. Maent yn gwneud hyn trwy greu meini prawf llwyddiant fel dosbarth sy'n nodi pob peth mae angen cynnwys cyn gwneud y darn o waith ac yna maent yn defnyddio'r meini prawf llwyddiant hyn i werthuso gwaith ei gilydd fel cynllun marcio. Mae'r disgyblion yn mynd ati ac uwchleuo lle mae eu cyfoed wedi cynnwys yr elfennau priodol i'r dasg sydd wedi cael ei nodi yn y meini prawf llwyddiant e.e. elfennau sy'n yng nghlwm ag arddull fel cwestiynau rhethregol a hefyd elfennau sy'n yng nghlwm a chynnwys penodol y tasgau.

Methodoleg:

Fe ddefnyddir system o brawf cychwynnol yn yr astudiaeth yma i weld sut mae'r disgyblion yn rhyngweithio gyda'r gwaith ar y cychwyn heb unrhyw ymyrraeth fel y bod disgyblion eu hunan medru gweld pa agweddau o'r gwaith lle maent yn teimlo'n hyderus a lle maent yn teimlo gallent wella. Dywed Gielen, S., Dochy, F. a Dierick, S. (2001) fod prawf cychwynnol yn bwysig i weld pa ddisgyblion sy'n gweithio ar yr un lefelau sydd a pha rhai sydd angen canolbwyntio ar elfennau tebyg o'r cynnwys. Gall y profion cychwynnol cael effaith cadarnhaol ar strategaethau gwybyddol y disgyblion wrth iddyn nhw fagu hyder trwy dargedu cydrannau o'r gwaith maent am ganolbwyntio ar wella (McDowell, L. 1995). Fel rhan o'r prawf cychwynnol yma roedd angen i'r disgyblion lenwi taflen hunan werthusiad yn syth ar ôl y prawf fel eu bod nhw'n nodi pa gwestiynau maent yn gweld fwyaf anodd a'r rhai maent yn hapus i ateb. Er hyn mae angen bod yn ofalus wrth greu ymyrraeth sydd wedi seilio ar yr hunan asesiad y disgyblion gan fod angen cofio efallai bod rhai ohonynt yn fwy onest nag eraill a bydd rhai efallai yn credu eu bod nhw'n hyderus ar un agwedd er maent wedi ateb y cwestiynau'n anghywir gan nad ydyn nhw'n gwybod eu marciau tra maent yn hunan asesu. Hefyd rhaid sicrhau bod y prawf cychwynnol yn addas ac yn mesur y targedau addysgu sy'n benodol i'r disgyblion iddyn nhw allu tyfu yn y dyfodol (Walberg, H.J. a Haertel, G.D., 1990.) a bod y daflen hunan asesu yn gyd-fynd gyda'r hyn maent wedi ateb.

Cam nesaf yr ymchwiliad yma yw ymyrraeth lle wnaethom gwrs a oedd wedi seilio ar taflenni hunan werthusiad y disgyblion. Yn delfrydol bydd yna digon o amser i greu cyfres o wersi i ymateb i'r taflenni gwerthuso ond oherwydd terfyn amser dim ond 3 wythnos oedd ar gael felly dim ond 3 gwrs oedd ar gael i gwneud y prawf cychwynnol, ymyrraeth a'r ôl-brawf. Yn y gwrs ymyrraeth fe aethom trwy'r daflen hunan werthuso ac o fewn pob cydrhan o'r daflen daeth un neu dwy disgybl a oedd yn teimlo'n hyderus gyda'r testyn i flean y dosbarth i esbonio i weddill y dosbarth rhai o'r engheifftiau oedd ganddyn nhw.

Fe daeth un disgybl i flaen dosbarth i dysgu'i gyd-ddisgyblion am ffurfiant ogof ac roedd y disgyblion a oedd yn gwrando i'r esboniad hefyd yn rhoi cymorth i ychwanegu manylder felly yn y pendraw fe wnaeth y dosbarth cydweithio i greu esboniad clir a oedd yn iaith pob dydd y disgyblion yn lle bod yn gor-gymleth. Roedd y gweithgaredd hyn yn sicrhau bod llais y disgybl yn cael eu clywed. Mae'n pwysig iawn fod disgyblion yn chwarae rôl gweithredol yn

eu haddysg (Knowles, M.S., 1975) ac wrth cael yr amser yn gwers hon i ddysgu ei gilydd maent yn ail-ddweud y gwybodaeth bridol mewn modd meant nhw'n cyfforddus gyda ac felly'n mwy debygol i ddeall a chofio yn yr hir-dymor.

Parhaodd y wers gyda dau disgybl arall yn esbonio beth yw erydiad, cludiant a dyddodiad trwy defnyddio symudiadau a'r lluniau sydd ar y bwrdd i ysgogi'r disgyblion a rhoi bach o gymorth iddyn nhw gallu dysgu'u cyd-ddisgyblion yn annibynol heb braidd ymyrraeth gan yr athro. Yna daeth grwp o'r ferched i greu diagram sy'n dangos ffurfiant bae a phentir i ddangos bod caledwch y graig yn effeithio ar y gyfradd erydu. Fe wnaeth y merched hefyd esbonio ffurfiant stwmp wrth fynd trwy camau'r erydiad ar y pentir ond o ddarllen y taflenni gwerthuso roedd mwyafrif y dosbarth yn deall y brosesau hyn ond am y dwy disgybl wnaeth colli'r gwers ar ffurfiant ogof, bwa, stac a stwmp felly dim ond 5 munud wnaethom treulio ar yr esboniadau hyn yn enwedig gan bod y dosbarth yn ymateb yn cadarnhaol i'r cwestiynau ar y testyn hwn.

Gan bod lawer o'r disgyblion wedi nodi ar y taflenni gwerthuso eu bod nhw hefyd yn teimlo'n weddol hyderus wrth drafod nodweddion y tonnau dim ond mynd dros rhain fel dosbarth roedd angen gwneud gan ein bod ni wedi creu symydiadau a synau i helpu nhw gyda'r gwahanol nodweddion y tonnau. Mae symudiadu a synau hyn yn dull defnyddiol i gymhwyso gwybodaeth a'u cofio (Ingold, T., 2011) sy'n dyst yn y daflen hunan werthuso gan bod y mwyafrif ohonynt yn teimlo'n hyderus gyda'r cynnwys hyn. Defnyddir yr un dull i drafod y mathau o erydu felly yn y gwers ymyrraeth aethon dros y mathau trwy gwneud y synau a symudiadau a chael trafodaeth dosbarth byr am y gwahanol fathau. Y cydran olaf ar y daflen wrthuso yw sut mae pobl yn defnyddio'r arfordir ac gan bod pob un disgybl yn deall y cydran yma fe crewyd deiogram corryn i ymgaslu'r holl synidau'r dosbarth mewn i un daflen fel bod ganddyn nhw ystod o syniadau i atgyfnerthu'u hymwybyddiaeth yn y dyfodol e.e. ar gyfer adolygu.

Cam olaf yr astudiaeth hon yw i gwneud ôl-brawf i weld os mae'r ymyrraeth a oedd wedi'i seilio ar hunan werthusiad y disgyblion wedi cael effaith bositif ar hyder ac ymwybyddiaeth y disgyblion neu beidio. Felly, fel rhan o'r ôl-brawf wnaethom cwis i brofi'r disgyblion ar cynnwys y thema 'arfordir' ac yna fe lenwyd y ffrflen hunan werthusiad eto i weld sut

oedden nhw'n teimlo am y gwahanol cydrannau erbyn hyn ac i nodi beth allent gwneud ymhellach i barhau i ymestyn eu hymwybyddiaeth trwy gosod y dau dymuniad. Pwrpas yr ôl-brawf yw i benderfynnu ar effeithiolrwydd yr ymyrraeth (Greenwald, A.G., 1968).

Wrth i ni dysgu mae'n bwysig ein bod yn cwestiynnu (Boud, D., 2013) felly defnyddir hunan werthusiad fel techneg o asesu ar gyfer dysgu gan ei bod yn annog y disgyblion i cwestiynu gallu eu hunan a gofyn pa elfennau maent yn rhagori ynddo a pha elfennau maent am ymarfer. Er hyn dywed Black, P. a Wiliam, D. (2005) gall unrhyw asesiad methu os nad oes arweiniad clir a cymorth ar gael tra maent yn hunan asesu gan heb canllawiau clir bydd pob un yn hunan asesu wedi seilio ar safonau gwahanol ac felly bydd rhai yn beirniadu eu hunian gormod lle mae rhai yn debygol o beidio cyfaddef pan nad ydyn nhw wedi deall pethau a nodi eu bod nhw'n deall y cydrannau.

Gwerthusiad:


Cynhelir yr astudiaeth hon dros cyfres o tair gwers gyda dosbarth ym mlwyddyn 7. Defnyddir y gwers cyntaf i profi dealltwriaeth y disgyblion ar y testyn 'arfordir' ac yna fe ofynwyd iddyn nhw i lenwi taflen hunan asesiad bras i weld sut oedden nhw'n teimlo am yr agweddau gwahanol cyn gwybod pa rai maent wedi ateb yn gywir. Gall defnyddio'r ffurf o rhestr sy'n cynnwys yr agweddau gwahanol a gofyn i'r disgyblion nodi'u barn fod yn gweithgaredd effeithiol gan bod athrawon yn gallu addasu gwersi'r dyfodol i fod yn addas i'r disgyblion penodol (Angelo, T.A. a Cross, K.P., 2012).

Erbyn y wers nesaf cawson nhw'r profion a oedd wedi cael eu marcio yn ôl a chawsant amser i ddarllen ac adlewyrchu ar eu perfformiad. Bwriad y wers hon yw i canolbwyntio ar gwella ymwybyddiaeth y dosbarth yn seiliedig ar y taflenni gwerthuso nid atebion y prawf. Felly, yn y wers hon fe ddaeth y disgyblion a oedd yn teimlo'n hyderus i flaen y dosbarth i esbonio'u harbenigedd nhw i'u cyd-ddisgyblion fel bod y disgyblion sy'n ansicr yn dysgu'r gwybodaeth a chael esboniad gwahanol (Griffin, P. a Care, E. eds., 2014) efallai bydden nhw'n deall yn haws. Ond hefyd roedd dull yma yn atgyfnerthu gallu'r disgyblion oedd yn esbonio hefyd gan bod gorfodi nhw i esbonio'r testyn i eraill yn medru caniatáu iddyn nhw i feddwl mewn modd gwahanol.


Yn y gwers olaf cynhelir cwis fel ôl-brawf i weld os mae gallu'r disgyblion wedi gwella'n gyffredinol ond hefyd i weld os mae'r disgyblion wedi gwella o fewn y cydrannau penodol oedden nhw wedi nodi ar y daflen hunan werthusiad nôl yn y gwers cyntaf. Ar ôl yr ôl-brawf ofynnwyd i'r disgyblion i lenwi'r daflen hunan werthusiad eto i weld a oedden nhw'n teimlo eu bod nhw wedi gwneud cynnydd lle oedd yn briodol neu beidio. Mae'n bwysig i defnyddio'r ôl-broffion i addasu unrhyw gwersi pellach i sicrhau bod yr asesiad yn bwrpasol ac wedi rhoi gwybodaeth defnyddiol i'r athrawon (Howes et al, 2008).

Mae'r graff isod yn ddangos y nifer o ddisgyblion oedd yn teimlo'n hyderus gyda'r cydrannau cyn ac ar ôl yr ymyrraeth (Gwyrdd) a'r nifer o ddisgyblion doedd ddim yn deall y cydrannau cyn ac ar ôl yr ymyrraeth (coch).


Gwelir bod y nifer o ddisgyblion gwyrdd wedi cynnyddu o fewn pob cydran ond am 'defnydd pobl o'r arfordir' lle oedd pawb yn hyderus gyda'r cydran yma o'r cychwyn. Mae rhai cydrannau wedi gweld fwy o welliant nag eraill ond mae cael unrhyw dath o gynnydd yn ddangos bod rhywfath o budd i'r ymyrraeth yn gyffredinol. Er hyn mae'r cydran 'gwahaniaeth rhwng erydiad gwahanol graig' dal gyda lle i wella yn y dyfodol. Felly mae'r asesiad hyn wedi bod yn defnyddiol gan nawr, mae'n bossib i weld yn glir pa elfennau mae angen gweithio arno'n bellach ac mae'r disgyblion yn gallu deall pa elfennau bydd angen iddyn nhw adolygu fwyaf i wella'u hymwybyddiaeth ar y pwnc 'arfordir.' Mae hyn hefyd yn defnyddiol i galluogi athrawon i greu grwp neu grwpiau o ddisgyblion penodol i gallu ffocysu arnynt i wella'r elfennau penodol (Boudett, K.P. a Steele, J.L., 2007).



Yn ogystal ag hyn mae'r graff uchod yn ddangos bod y nifer o ddisgyblion sydd ddim yn deall wedi lleihau o fewn pob cydran lle mae'n briodol. Mae'n gwerth nodi y cydran 'erydiad ar y pentir' gan fod y lleihad fwyaf o'r nifer o ddisgyblion a oedd yn dewis y categori coch yn y cydran yma. Er bod hyn yn creu argraff o wers ymyrraeth llwyddiannus mewn gwirionedd roedd y mwyafrif yn deall y gwaith hyn ond ddim yn adnabod beth oedd teitl y cydran yn cyfeirio ato. Unwaith cawsant esboniad o beth oedd yr erydiad ar y pentir yn cwynnwys roedd lawer ohonynt yn gallu'u hesbonio heb unrhyw ymyrraeth gennyf i neu o gyd-ddisgyblion felly wnaeth y dosbarth cyd-weithio i ffurfio'r esboniadau fel bod nhw'n cofio ystyr y termau allweddol e.e. pentir. Hefyd mewn gydag ambell disgybl maent wedi nodi rhai cydrannau'n goch ar y cychwyn gan eu bod nhw wedi colli'r gwersi ac felly ar ôl cael cyd-ddisgyblion dysgu'r elfennau iddyn nhw fe oedden nhw'n debygol o ddeall fwy gan nad oedden nhw byth wedi dysgu amdanynt o'r blaen.



Yn y graff uchod mae'r cwestiynau wedi'u nodi i weld os mae'r disgyblion wedi gweld cynnydd yn yr elfennau penodol ers yr ymyrraeth a pa adrannau sydd wedi gweld y cynnydd fwyaf. Mae hefyd yn ddangos yn glir y dwy elfen sydd angen cael gwers pellach i sicrhau bod mwy o'r disgyblion yn teimlo'n hyderus ynddynt sef 'gwahaniaeth rhwng erydiad ar gwahanol graid' ac hefyd nodweddion y tonnau felly mae'r data cynradd sydd wedi cael ei gasglu yma'n creu cyfleoedd am gwersi'r dyfodol (Grant, L. and Stronge, J., 2013).



Dangosir y graff uchod y newid yn canfyddiad y disgyblion a oedd yn teimlo nad oeddent yn deall yr elfennau cyn ac ar ôl yr ymyrraeth. Eto mae'r graff hyn hefyd yn ddangos bod y nifer o ddisgyblion a oedd ddim yn deall wedi lleihau ers y gwers a oedd wedi seilio ar y taflenni hunan werthuso. Ar y graff hwn gellir gweld bod angen mynd dros tirffurfiau arfordirol gydag rhai unigolion i sicrhau bod nhw'n hollol sicr ac yn teimlo'n digon hyderus i deall a gallu esbonio'r cydran.

Casgliad:

Mae'r ymchwiliad yma wedi darganfod bod asesu ar gyfer dysgu yn dull defnyddiol ac mae'n hollbwysig i'w defnyddio yn gywir er mwyn hybu twf, cyfoethogu dysgu a chodi hyder disgyblion. Fe wnaeth yr ymchwiliad yma edrych ar un engraifft o asesu ar gyfer dysgu sef hunan asesiad a fe crëwyd gwers ymyriaethol a oedd wedi'i seilio ar hunan asesiad y disgyblion. Mae hunan asesu yn dull hanfodol gan fod yna posibilrwydd o ddatblygu ystod o sgiliau'r disgyblion wrth iddyn nhw gwerthuso'u perfformiad er enghraifft hunan-ddisgyblaeth, dyfrbarhad, anibyniaeth, metaymwybyddiaeth a meddylfryd adlewyrchol.

Fe wnaeth y disgyblion oedd yn rhan o'r ymchwiliad yma benderfynu eu bod nhw wedi gwneud twf wrth cymryd amser i ystyried yr agweddau maent yn ddeall a'r agweddau mae angen iddyn nhw ailedrych arnynt ac yn y pendraw roedd gosod targedau ar gyfer y dyfodol yn fwy effeithiol wrth gwneud hyn ar ôl edrych nôl ac hunan asesu'u dealltwriaeth.

Gweler bod lawer o'r ddisgyblion a oedd yn ansicr a oedd wedi nodi coch neu oren ar eu taflenni wedi tueddi newid i fod yn fwy hyderus ac hyd yn oed os nad ydy perfformiad y disgyblion yn gweld cymaint o newid rhaid ystyried bod magu'r hyder yn cam gyntaf i chodi'r ymwybyddiaeth ac yna unwaith mae ganddyn nhw fwy o hyder bydd yn haws i atgyfnerthu cynnwys y thema (Gustafson, L.P., 2018).

Mae angen creu adnoddau o asesu ar gyfer dysgu i athrawon Cymru fel bod digwyddiadau'r ymchwiliad yma yn gallu cael ei profi yn ystod o ysgolion gwahanol. Er mwyn i athrawon ar ddraws Cymru datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu mae rhai argymhellion wedi codi o'r ymchwiliad yma. Un peth diddorol i ymestyn yr ymchwil o fewn y maes asesu ar gyfer dysgu yw i ailwneud ymchwiliadau tebyg o fewn ysgolion gwahanol a dosbarthiadau gwahanol i weld sut mae disgyblion amrywiol yn ymateb. Bydd ymchwil pellach yn agor y ddrws am ddatblygiad o stratagaethau gwahanol (Marsh, J.A., Pane, J.F. a Hamilton, L.S., 2006).

Goblygiadau i'r dyfodol:

Er hyn nid oedd hyn yn ymchwyliad delfrydol gyda rhai cyfyngiadau yn bresennol. Gan bod angen cynnal yr ymchwiliad yn yr ysgol penodol dim ond 3 wythnos oedd ar ôl yna. Fe gosododd hyn terfyn amser lletchwyth gan taw dim ond un dosbarth oedd ar gael am 3 gwrs ac roedden nhw newydd cychwyn thema newydd ac felly penderfynwyd i cynnal yr ymchwiliad ar eu thema diwethaf cyn nadolig.

Mater arall wnaeth ymgodi oherwydd y terfyn amser oedd bod rhai disgyblion yn absennol am rhai o'r gwrsi felly dim ond y 24 oedd yn bresennol am y tair gwrs cyfan wnaeth cymryd rhan yn yr ymchwiliad. Gyda dim ond 24 o ddisgyblion nid ydy hwn yn archwyliad eang iawn ac felly nad ydy'n creu darlun o dosbarthiadau ar ddawns Gymru i gyd, hynny yw efallai lle mae elfennau wedi gweithio o fewn yr ymchwiliad hon yn yr ysgol yma nid ydy'n sicr y bydd yn gweithio ym mannau arall.

Nid oes lawer o amrywiaeth diwylliannol yn yr ardal yma a gan fod lefelau prydau ysgol am ddim ac anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn isel iawn eto dydy'r ymchwiliad ddim yn cyfeirio at nifer o ffactorau allannol. Yn ogystal ag hyn oherwydd sut oedd y gwrsi wedi cael eu trefni ar yr amserlen roedd y dwy wers cyntaf ar dyddiau dilynol ac yna oedd wythnos cyn y wers olaf felly mae'n bosib bod unrhyw welliannau mae'r disgyblion wedi profi o ganlyniad i adolygu adref hefyd ond gan fod ddim arholiadau'n agos i chyfnod yr ymchwiliad mae'n anhebygol bod y disgyblion wedi edrych ar y cynnwys yn ystod yr wythnos yna gan nad oedden nhw'n ymwybodol bod cwis yn y gwrs olaf.

Felly, mae strwythur a stratagaethau'r astudiaeth yma wedi gweld hunan asesiad defnyddiol ac effeithiol yn y dosbarth lle wnaeth y disgyblion profi gwelliannau yn eu hymwybyddiaeth ar y thema. Ond yn y dyfodol bydd ailwneud yr ymchwiliad yn ystod o ysgolion ar raddfa mwy eang gyda digon o amser i gwneud cyfres o wersi ymyrraeth yn creu argraff fwy clir ac yn rhoi'r siawns iddym weld rôl asesu ar gyfer dysgu ac yn fwy benodol hunan asesiad yn addysg Cymru heddiw a datblygu ystod o stratagaethau amrhywiol er mwyn ehangu'r ymchwyliad i'r pwnc gan bod angen lawer mwy o ystyriaeth i asesu ar gyfer dysgu.

Llyfryddiaeth:

Angelo, T.A. and Cross, K.P., 2012. *Classroom assessment techniques*. Jossey Bass Wiley.

Black, P. and Wiliam, D., 2005. *Inside the black box: Raising standards through classroom assessment*. Granada Learning.

Black, P., Harrison, C. and Lee, C., 2003. *Assessment for learning: Putting it into practice*. McGraw-Hill Education (UK).

Boud, D., 2013. *Enhancing learning through self-assessment*. Routledge.

Boudett, K.P. and Steele, J.L., 2007. *Data Wise in Action: Stories of Schools Using Data to Improve Teaching and Learning*. Harvard Education Press. 8 Story Street First Floor, Cambridge, MA 02138.

Dweck, Carol S. *Mindset: The New Psychology of Success*. New York: Random House, 2006. Print.

Earl, L.M., 2012. *Assessment as learning: Using classroom assessment to maximize student learning*. Corwin Press.

Fetterman, D.M., Kaftarian, S.J. and Wandersman, A., 1996. *Empowerment evaluation: Knowledge and tools for self-assessment and accountability*. Sage.

Gielen, S., Dochy, F. and Dierick, S., 2003. Evaluating the consequential validity of new modes of assessment: The influence of assessment on learning, including pre-, post-, and true assessment effects. In *Optimising new modes of assessment: In search of qualities and standards* (pp. 37-54). Springer, Dordrecht.

Grant, L. and Stronge, J., 2013. *Student achievement goal setting: Using data to improve teaching and learning*. Routledge.

Greenwald, A.G., 1968. Cognitive learning, cognitive response to persuasion, and attitude change. *Psychological foundations of attitudes*, pp.147-170.

Griffin, P. and Care, E. eds., 2014. *Assessment and teaching of 21st century skills: Methods and approach*. Springer.

Gustafson, L.P., 2018. When Assessment Impedes Student Learning: Analyzing the Consequential Validity of Our Assessment Systems.

Guskey, T. R.. (February, 2003). How classroom assessments improve learning. *Retrieved from [http://www.ascd.org/publicationsed_lead/200302/guskey.h tml](http://www.ascd.org/publicationsed_lead/200302/guskey.html)*

Harris, L.R. and Brown, G.T., 2013. Opportunities and obstacles to consider when using peer- and self-assessment to improve student learning: Case studies into teachers' implementation. *Teaching and Teacher Education*, 36, pp.101-111.

Heitink, M.C., Van der Kleij, F.M., Veldkamp, B.P., Schildkamp, K. and Kippers, W.B., 2016. A systematic review of prerequisites for implementing assessment for learning in classroom practice. *Educational research review*, 17, pp.50-62.

Howes, C., Burchinal, M., Pianta, R., Bryant, D., Early, D., Clifford, R. and Barbarin, O., 2008. Ready to learn? Children's pre-academic achievement in pre-kindergarten programs. *Early childhood research quarterly*, 23(1), pp.27-50.

Ingold, T., 2011. *Being alive: Essays on movement, knowledge and description*. Routledge.

Janisch, C., Liu, X. and Akrofi, A., 2007, September. Implementing alternative assessment: opportunities and obstacles. In *The Educational Forum* (Vol. 71, No. 3, pp. 221-230). Taylor & Francis Group.

Knowles, M.S., 1975. Self-directed learning: A guide for learners and teachers.

Marsh, J.A., Pane, J.F. and Hamilton, L.S., 2006. Making sense of data-driven decision making in education.

McDowell, L. (1995 of 1996). The impact of innovative assessment on student learning. *JETI*, 32 (4), 302-313.

McMillan, J.H. and Hearn, J., 2008. Student self-assessment: The key to stronger student motivation and higher achievement. *Educational Horizons*, 87(1), pp.40-49.

Schunk, D.H., 2012. *Learning theories an educational perspective sixth edition*. Pearson.

Stiggins, R.J., 2002. Assessment crisis: The absence of assessment for learning. *Phi Delta Kappan*, 83(10), pp.758-765.

Walberg, H.J. and Haertel, G.D., 1990. *The international encyclopedia of educational evaluation*. Pergamon.

Gwerthuso Uned o Waith Daearyddiaeth

Teitl yr Uned: _____

Y ddau beth a wnes i lwyddo orau ynddynt yn yr uned hon oedd (2 seren):





Y ddau beth yr hoffwn wella yn y dyfodol (2 ddymuniad):





Fy marn cyffredinol am yr uned hon:

☐☐☐☐☐

Llofnod Disgybl: _____ Llofnod Athro: _____ Dyddiad: _____

Hunan asesu ymwybyddiaeth arfordirol

	Enghreifftiau:	Pa mor hyderus ydw i:
Tirffurfiau arfordirol.		☐ ☐ ☐
Prosesau sy'n ffurfio siâp yr arfordir.		☐ ☐ ☐
Gwahaniaeth rhwng erydiad gwahanol graig a thirffurfiau mae'n creu.		☐ ☐ ☐
Erydiad ar y pentir.		☐ ☐ ☐
Nodweddion tonnau.		☐ ☐ ☐
Mathau o erydu.		☐ ☐ ☐
Sut mae pobl yn defnyddio'r arfordir.		☐ ☐ ☐

1 Seren a dau ddymuniad:





